wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# RHYBUDD ETHOLIAD

# Dydd Iau 5 Mai 2022
# Bwrdeistref Sirol Wrecsam
# (Etholaeth De Clwyd)

1. Cynhelir etholiadau am Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol a Chynghorwyr Cymuned fel y rhestrir isod.

2. Rhaid cyflwyno Papurau Enwebu i'r Swyddog Canlyniadau erbyn **4pm, ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022** fan bellaf**.**

3. Gellir mynd â phapurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Swyddfa Etholiadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyhoeddi'r rhybudd hwn (ac eithrio gwyliau banc), trwy apwyntiad, neu gellir eu cyflwyno yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad isod ynglŷn â chyflwyno'n electronig.

4. Gellir cael papurau enwebu oddi wrth y Swyddog Canlyniadau, naill ai yn y Swyddfa Etholiadau, neu trwy e-bostio electoral@wrexham.gov.uk. Mae papurau enwebu ar gyfer Etholiadau Cymuned hefyd ar gael gan Glercod y Cynghorau Cymuned.

5. Os bydd unrhyw etholiad yn cael ei hymladd, cynhelir y bleidlais ar **ddydd Iau, 5 Mai 2022**.

6. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos, ddydd Iau 14 Ebrill 2022. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein ar www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

7. Rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5pm ddydd Mawrth 19 Ebrill 2022.

8. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5pm ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022.

9. Rhaid i geisiadau brys i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiad neu ganllaw gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 5pm, ddydd Iau, 5 Mai 2022. Rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth neu coronafeirws, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022.

10. **Datganiad cyflwyno'n electronig**

    Gellir cyflwyno papurau enwebu yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn:

    Ar gyfer enwebiadau'r **fwrdeistref sirol** - trwy e-bost i **CBnominations@wrexham.gov.uk**

    Ar gyfer enwebiadau **cyngor cymuned** - trwy e-bost i **CCnominations@wrexham.gov.uk**

    **Gwiriadau anffurfiol** – teipiwch '**GWIRIAD ANFFURFIOL BS'** neu '**GWIRIAD ANFFURFIOL CC'** yn y blwch testun

    **Cyflwyno enwebiadau** – teipiwch '**CYFLWYNIAD FFURFIOL BS'** neu **'CYFLWYNIAD FFURFIOL CC'** yn y blwch testun

Nodwch os gwelwch yn dda:

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y terfynau amser gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig yn brawf bod cais wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i hysbysu ymgeiswyr o'u penderfyniad a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch gyda danfon enwebiadau yn electronig cysylltwch â electoral@wrexham.gov.uk

| Rhanbarth Etholiadol Sirol | Nifer y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol | Cymuned [Ward y Gymuned] | Nifer y Cynghorwyr Cymuned |
|---|---|---|---|
| GOGLEDD ACREFAIR | 1 | CEFN – PLAS MADOC | 5 |
| BANGOR-IS-Y-COED | 1 | BANGOR IS-Y-COED<br>WILLINGTON WORTHENBURY – WILLINGTON<br>WILLINGTON WORTHENBURY – WORTHENBURY | 10<br>4<br>5 |
| BRONINGTON A HANMER | 1 | BRONINGTON – BRONINGTON<br>BRONINGTON – IS-COED<br>BRONINGTON – TŶ BROUGHTON<br>HANMER – HALGHTON<br>HANMER – HANMER | 6<br>4<br>2<br>4<br>5 |
| BRYMBO | 2 | BRYMBO - BRYMBO<br>BRYMBO – FRON | 8<br>3 |
| BRYN CEFN | 1 | BROUGHTON - BRYN CEFN | 5 |
| DWYRAIN CEFN | 1 | CEFN – CEFN<br>CEFN – RHOSYMEDRE A CEFNBYCHAN | 5<br>1 |
| GORLLEWIN CEFN | 1 | CEFN – ACREFAIR A PENYBRYN | 5 |
| GOGLEDD Y WAUN | 1 | Y WAUN – GOGLEDD | 8 |
| DE'R WAUN | 1 | Y WAUN - DE | 7 |
| COEDPOETH | 2 | COEDPOETH - GOGLEDD<br>COEDPOETH - DE | 10<br>4 |
| DYFFRYN CEIRIOG | 1 | GLYNTRAEAN<br>LLANSANTFFRAID GLYN CEIRIOG<br>CEIRIOG UCHA – LLANARMON DC<br>CEIRIOG UCHA - LLANGADWALADR | 10<br>10<br>4<br>4 |
| ESCLUSHAM | 1 | ESCLUSHAM – BERSHAM<br>ESCLUSHAM – RH0STYLLEN | 1<br>10 |
| GWENFRO | 1 | BROUGHTON - GWENFRO | 5 |
| LLANGOLLEN WLEDIG | 1 | LLANGOLLEN WLEDIG | 10 |
| MARCHWIAIL | 1 | SESSWICK<br>MARCHWIAIL - SONLLI<br>MARCHWIEL – PIERCY<br>MARCHWIEL – DEINIOL<br>ERBISTOG | 8<br>2<br>6<br>3<br>7 |
| Y MWYNGLAWDD | 1 | Y MWYNGLAWDD<br>BRYMBO - BWLCHGWYN | 12<br>3 |
| NEW BROUGHTON | 1 | BROUGHTON - BRYNTEG<br>BROUGHTON – NEW BROUGHTON | 2<br>4 |
| OWRTYN A DE MAELOR | 1 | OWRTYN<br>DE MAELOR – BETTISFIELD<br>DE MAELOR – LLANERCH BANNA | 11<br>4<br>6 |
| PANT A JOHNSTOWN | 2 | RHOSLLANERCHRUGOG – PANT<br>RHOSLLANERCHRUGOG – JOHNSTOWN | 4<br>6 |
| PEN-Y-CAE | 1 | PEN-Y-CAE - EITHA | 8 |
| PEN-Y-CAE A DE RHIWABON | 1 | PEN-Y-CAE - GROES<br>RHIWABON - DE | 6<br>4 |
| PONCIAU | 1 | RHOSLLANNERCHRUGOG - DE PONCIAU<br>RHOSLLANNERCHRUGOG - GOGLEDD PONCIAU<br>ESCLUSHAM – PENTREBYCHAN | 2<br>3<br>2 |
| RHOS | 1 | RHOSLLANERCHRUGOG – RHOS<br>ESCLUSHAM – ABEROER | 4<br>2 |
| RHIWABON | 1 | RHIWABON – GOGLEDD | 10 |

**Ian Bancroft** **Swyddog Canlyniadau**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY

Dyddiedig : Dydd Gwener 18 Mawrth 2022